BLACKBOARD CANLLAWIAU I FYFYRWYR

2018-19

CYNNWYS

Beth yw Blackboard? 2
Cychwyn Arni 2
Golwg Gyffredinol 3
Tabiau 3
Dewislen Llywio Byd-Eang 4
Agor Modiwl 4
Yn eich Modiwl 4
Ardaloedd Cynnwys 5
Lawrlwytho Dogfennau 5
Offer 5
Gweld recordiadau darlith Panopto 6
Aseiniadau 6
Turnitin 6
Sut i gyflwyno aseiniad ar Turnitin 6
Aseiniad Blackboard 8
Canfod Marciau ac Adborth 8
Byrddau Trafod 8
Blogiau a Dyddiaduron ar Blackboard 9
Canfod Blogiau a Dyddiaduron 10
Creu Cofnodion 10
Allgofnodi o Blackboard 10
Rhagor o Wybodaeth 10

BETH YW BLACKBOARD?

Mae Blackboard yn darparu safle ar-lein ar gyfer pob modiwl. Mae'r safleoedd hyn yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi dysgu ac addysgu.

CYCHWYN ARNI

Gallwch fewngofnodi i Blackboard o unrhyw gyfrifiadur sy'n gysylltiedig â'r Rhyngrwyd gan ddefnyddio eich porwr, megis Google Chrome, Firefox, Internet Explorer, ac ati.

- Agorwch eich porwr. Rhowch **https://blackboard.aber.ac.uk** yn y bar cyfeiriad.

- Dewiswch eich iaith

- Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair PA.



Ar ôl mewngofnodi i Blackboard ewch i **Dolenni Defnyddiol**, a chliciwch ar **Gwirio eich porwr** i wirio bod eich porwr a'ch system weithredu'n cael eu cefnogi.



Os nad yw eich porwr yn cael ei gefnogi, mae'n bosibl na fydd rhai o nodweddion Blackboard yn gweithio fel y byddech yn disgwyl iddynt wneud. Dylech ofalu eich bod yn defnyddio porwr a gefnogir wrth wneud tasgau pwysig fel cyflwyno aseiniadau neu wneud cwis dan asesiad.

Neu fel arall, os ydych yn defnyddio gweithfan gwasanaeth cyhoeddus, gallwch fynd i mewn i Blackboard drwy glicio ar yr eicon ar y bwrdd gwaith. Gallwch hefyd gyrraedd Blackboard o wefan **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** y Brifysgol drwy glicio ar **Eich Safleoedd** a **Blackboard**.

GOLWG GYFFREDINOL

TABIAU

Wedi i chi fewngofnodi, bydd Blackboard yn dangos eich modiwlau ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol.

Ewch i **Modiwlau Cyffredinol** ac i fodiwl eich adran i gael gwybodaeth benodol am eich adran:



- Bydd hysbysiadau am eitemau newydd mewn modiwl yn ymddangos drws nesaf i fodiwl

- **Cyhoeddiadau** – Bydd unrhyw gyhoeddiadau newydd am eich modiwlau yn ymddangos ar flaenddalen y modiwl.
- **Offer** – Mae'r blwch Offer yn cynnwys offer personol, megis eich rhestr o dasgau a'ch calendr.



Fy Modiwlau – cliciwch ar y tab **Fy Modiwlau** i weld yr holl fodiwlau yr ydych wedi eich cofrestru ar eu cyfer yn y flwyddyn academaidd hon, yn ogystal â modiwlau blynyddoedd blaenorol.



SgiliauAber – Dyma borth adnoddau sgiliau astudio i fyfyrwyr:



DEWISLEN LLYWIO FYD-EANG

Mae'r ddewislen Llywio Fyd-Eang yn caniatáu i chi lywio eich ffordd drwy holl ardaloedd gwahanol Blackboard, a gallwch gael gafael arni unrhyw adeg o gornel dde uchaf y sgrin. Cliciwch ar y saeth i lawr ger y botwm Allgofnodi er mwyn agor y ddewislen:



Mae'r ddewislen hon yn rhoi mynediad chwim i'ch modiwlau, gan gynnwys ymweliadau diweddar, yn ogystal â dolenni hafan a chymorth a gosodiadau personol. Cliciwch ar yr eiconau ar ochr chwith y ddewislen i weld hysbysiadau ynghylch dyddiadau cyflwyno aseiniadau, cyfathrebiadau, cyhoeddiadau, ac eitemau newydd a ychwanegwyd at eich modiwlau.

AGOR MODIWL

I agor un o'ch modiwlau yn Blackboard, cliciwch ar **Modiwlau Cyfredol** ar gyfer modiwlau yn y flwyddyn academaidd hon, neu ar y tab ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol ar gyfer modiwlau yn y blynyddoedd blaenorol:

YN EICH MODIWL

Dewislen y Cwrs – Bydd dewislen y cwrs yn ymddangos ar ochr chwith y sgrin bob amser. Gallwch guddio dewislen y cwrs drwy glicio ar y saeth sy'n ymddangos pan fyddwch yn hofran eich llygoden dros ochr dde'r panel. I ddangos dewislen y cwrs eto, cliciwch eilwaith ar y saeth:



ARDALOEDD CYNNWYS

Bydd unrhyw ardaloedd cynnwys ar gyfer y cwrs yn ymddangos fel botymau neu ddolenni ar ddewislen y cwrs ar y chwith. Ar gyfer modiwl nodweddiadol, bydd yr eitemau canlynol ar ddewislen y cwrs:

- **Gwybodaeth am y Modiwl** – llawlyfr y modiwl, dolen i ddisgrifiad swyddogol y modiwl.
- **Cynnwys** – deunydd astudio wedi'i lwytho gan eich tiwtoriaid. Ymhlith yr eitemau nodweddiadol bydd nodiadau darlith, recordiadau o ddarlithoedd, cyflwyniadau PowerPoint, rhestrau darllen, clipiau fideo, dolenni, cwisiau a fforymau trafod.
- **Aseiniadau** – manylion briffio ar gyfer aseiniadau a dolenni i chi gyflwyno aseiniadau yn electronig.
- **Offer** – amrywiaeth o offer y cwrs. Gweler isod am fanylion.

I lywio eich ffordd o amgylch Blackboard, cliciwch ar y dolenni. Osgowch glicio'r botwm i fynd 'nôl ar eich porwr.

LAWRLWYTHO DOGFENNAU

Eitemau y gellir eu darllen yn unig yw popeth a geir yma oni bai eich bod yn eu cadw ar eich cyfrifiadur eich hun. I gadw dogfen ar eich cyfrifiadur eich hun, ewch i'r rhan o'r cwrs Blackboard lle mae'r ddogfen wedi'i lleoli a chlicio ar y ddolen. Gallwch naill ai gadw'r ffeil ar eich cyfrifiadur yn syth, neu agor y ffeil a'i chadw o'r fan honno.

OFFER

Gan ddibynnu sut mae Cydlynydd y Modiwl wedi teilwra'r cwrs, mae'n bosibl y gwelwch rywfaint neu bob un o'r offer hyn. Dyma grynodeb o rai offer pwysig:

- **Cyhoeddiadau** – Mae'n bosibl y bydd eich tiwtor yn postio negeseuon pwysig am y modiwl.

- **Bwrdd Trafod** – Gweler isod.
- **Fy Ngraddau** – Gweler isod.
- **Anfon E-bost** – Bydd Blackboard yn anfon negeseuon e-bost i unrhyw un sydd ar yr un cwrs. Bydd yr ebost yn mynd i gyfrif ebost Prifysgol y defnyddiwr. Nid oes modd darllen negeseuon ebost yn uniongyrchol o fewn Blackboard. **Sylwch:** fod rhai cyrsiau mor fawr fel bod y cyfleuster i ebostio pob defnyddiwr wedi cael ei ddiffodd.
- **Grwpiau** – Mae'n bosibl y bydd eich tiwtor yn sefydlu grŵp seminar neu grŵp prosiect ar y cyd. Gall grŵp fod â'i gyfnewidfa ffeiliau, ebost, bwrdd trafod a sgwrsio rhithwir ei hun. Dim ond i'r ardaloedd grŵp hynny y mae'r tiwtor wedi eu pennu y gall defnyddwyr gael mynediad. Os yw eich tiwtor wedi eich pennu i grŵp, byddwch yn gweld enw'r grŵp wedi'i restru yn newislen y cwrs. Cliciwch ar enw'r grŵp i ganfod offer y grŵp. Gallwch hefyd weld rhestr o aelodau'r grŵp.



GWELD RECORDIADAU DARLITH PANOPTO

Gall darlithwyr roi recordiadau o'u darlithoedd yn Blackboard (fel rheol o dan **Cynnwys**). Dangosir recordiadau darlith gydag eicon Panopto drws nesaf i'r recordiad hwnnw:

- Cliciwch ar y ddolen i'r ddarlith yr hoffech edrych arni. Bydd y recordiad yn agor mewn ffenestr newydd.
- Os gofynnir i chi am eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair, defnyddiwch y gwymplen i ddewis **Sign in with Blackboard.**

Gan ddibynnu ar gynllun y modiwl, efallai y bydd modd i chi hefyd weld yr holl recordiadau darlith sydd ar gael ar gyfer y modiwl hwnnw trwy fynd i **Offer** yn newislen y cwrs a chlicio ar **Cynnwys Panopto.**

Mae'r feddalwedd i weld recordiadau wedi'i gosod ar yr holl gyfrifiaduron gwasanaeth cyhoeddus. Os hoffech weld recordiadau ar eich cyfrifiadur personol, efallai y bydd angen gosod y feddalwedd Silverlight. Gallwch lawrlwytho Silverlight o wefan Microsoft: http://www.microsoft.com/silverlight/

ASEINIADAU

Mae dau fath o aseiniad y gallwch eu canfod yn Blackboard. Defnyddir Turnitin i lwytho'r rhan fwyaf o aseiniadau testun, tra defnyddir Blackboard Assignment, o bosibl, ar gyfer aseiniadau eraill. Mae'r drefn ar gyfer eu llwytho yr un fath, ond mae'r sgriniau rywfaint yn wahanol.

TURNITIN

Mae Turnitin yn caniatáu i fyfyrwyr:

- Gyflwyno gwaith yn electronig
- Cael derbynneb ar e-bost i nodi eu bod wedi cyflwyno
- Gweld graddau ac adborth ar Blackboard

SYT I GYFLWYNO ASEINIAD TURNITIN

- Cliciwch ar **Aseiniadau** a chanfod pwynt cyflwyno'r aseiniad priodol
- Cliciwch ar **View/Complete**



- Yna fe welwch y wybodaeth am eich aseiniad. Cliciwch ar **Submit**



- Rhowch deitl eich aseiniad (bydd eich enw wedi ei nodi yn awtomatig)
- Cliciwch y botwm **Choose File** a dewis y ffeil yr hoffech ei llwytho
- Pan fyddwch yn barod, cliciwch ar **Upload:**



Noder: dim ond un ffeil hyd at 20MB y gall myfyrwyr ei llwytho ar gyfer pob cyflwyniad TurnItIn.

- Wedi i chi gyflwyno eich aseiniad, gofynnir i chi adolygu'r cyflwyniad. Dylech wirio eto eich bod wedi llwytho'r aseiniad cywir, yna clicio ar **Submit** i gadarnhau.

Sylwch, os ydych wedi cyflwyno'r ffeil anghywir, dylech glicio ar **Return to upload page**, lle gallwch ddewis ffeil arall.

- Wedi i chi glicio **Submit**, bydd y broses gyflwyno yn gyflawn ac fe welwch dderbynneb ddigidol ar y sgrin. Byddwch hefyd yn cael copi o'r dderbynneb hon trwy eich cyfrif e-bost PA.
- I lawrlwytho copi llawn o'r dderbynneb ddigidol, llywiwch eich ffordd yn ôl i'r fan lle gwnaethoch gyflwyno eich aseiniad, a chlicio ar y botwm lawrlwytho:



Os na chewch dderbynneb ar e-bost, ac na allwch ei lawrlwytho, ni fu'r cyflwyno'n llwyddiannus a bydd angen ichi ailadrodd y broses.

ASEINIAD BLACKBOARD

Yn achos rhai modiwlau, efallai y bydd gofyn ichi lwytho aseiniadau drwy Blackboard Assignment, yn hytrach na Turnitin.

Cliciwch yma, a sgrolio i'r adran Blackboard Assignment, i gael cyfarwyddiadau cam wrth gam ar gyflwyno Blackboard Assignment.

CANFOD MARCIAU AC ADBORTH

Mae dwy ffordd bosibl o ganfod eich marciau ac adborth yn Blackboard:

- Y ddolen gyflwyno wreiddiol
- **Fy Ngraddau**



Gweler y Cwestiynau Cyffredin am gael gafael ar adborth ar eich aseiniad drwy Turnitin a Blackboard Assignment i gael cyfarwyddiadau manylach.

BYRDDAU TRAFOD

Gellir canfod y Bwrdd Trafod ar gyfer pob cwrs dan **Offer,** yna **Byrddau Trafod.**

Sylwch: Mae'n bosibl hefyd i'ch tiwtor roi dolen uniongyrchol i fforwm mewn rhan arall o'ch cwrs Blackboard.

Mae tair lefel yn nythu mewn bwrdd trafod:

- O leiaf un **fforwm**, y bydd yn rhaid i'r tiwtor ei greu cyn y gall unrhyw un bostio neges.
- **Edefynnau** o bostiadau perthnasol ar yr un pwnc.

- **Postiadau** neu negeseuon unigol, sy'n debyg i negeseuon e-bost.

Os bydd fforwm wedi'i greu ac edefyn wedi'i gychwyn, byddwch hefyd yn gweld rhestr chwim o gyfanswm nifer y postiadau i'r drafodaeth yn ogystal â nifer y postiadau sydd heb eu darllen a nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y drafodaeth.

I fynd i mewn i fforwm, cliciwch ar y teitl. Yna fe welwch restr o'r holl edefynnau (gwahanol elfennau'r drafodaeth), gyda manylion ynghylch nifer y postiadau a nifer y postiadau sydd heb eu darllen yn yr edefyn hwnnw.



I weld y negeseuon unigol, cliciwch ar deitl yr edefyn. Fe welwch set o opsiynau ar y brig, a fydd o gymorth i chi drefnu sut yr ydych yn edrych ar y bwrdd.

Gallwch naill ai ymateb yn uniongyrchol i'r neges wreiddiol neu, os ydych yn cyfeirio at rywbeth yn neges rhywun arall, gallwch ymateb iddynt yn uniongyrchol.

BLOGIAU A DYDDIADURON BLACKBOARD

Mae blogiau yn ffordd effeithiol i fyfyrwyr rannu syniadau a gwybodaeth gyda'r dosbarth. Gall myfyrwyr bostio cofnodion ar eu blogiau eu hunain a gall yr hyfforddwr a myfyrwyr eraill ychwanegu sylwadau. Gall grwpiau o fyfyrwyr hefyd rannu blogiau a gall holl aelodau'r grŵp greu cofnodion, gan adeiladu y naill ar sail y llall.

Blog preifat yw dyddiadur ar-lein. Dim ond y myfyriwr unigol a'i diwtor sy'n gallu gweld y cofnodion. Gall y rhain fod yn gofnodion dysgu myfyriol neu'n ddiweddariadau ar sut mae prosiect penodol yn datblygu.

CANFOD BLOGIAU A DYDDIADURON

- Ewch i mewn i'r cwrs Blackboard yr ydych yn cyflwyno gwaith ar ei gyfer.
- Cliciwch ar y ddolen **Offer** o ddewislen y cwrs (melyn) a chlicio ar **Cyfnodolion** neu **Blogiau**.
- **Sylwch:** Efallai y bydd eich tiwtor yn creu dolen uniongyrchol i'ch blog/dyddiadur o ran arall o'ch cwrs Blackboard.
- Cliciwch ar enw'r blog/dyddiadur perthnasol.

CREU COFNODION

- Cliciwch ar **Creu Cofnod Cyfnodolyn:**



- Ychwanegwch deitl a neges yn y blwch testun. Gellir paratoi'r cynnwys yn y blwch testun, neu ei baratoi ymlaen llaw a'i ludo yn y blwch testun.
- Wedi i chi gwblhau eich cofnod blog, cliciwch ar **Postio Cofnod:**

ALLGOFNODI O BLACKBOARD

- Wedi ichi orffen defnyddio Blackboard, cliciwch y botwm **Allgofnodi**.



GWYBODAETH BELLACH

- **Cwestiynau Cyffredin Blackboard:** https://faqs.aber.ac.uk/#blackboard
- **Cwestiynau Cyffredin Turnitin:** https://faqs.aber.ac.uk/#turnitin

- **Tîm Blackboard**: bb-team@aber.ac.uk
- **Gwasanaethau Cwsmeriaid**
    - **Ffôn:** 01970 622400 (2400 o ffôn yn y Brifysgol)
    - **E-bost:** is@aber.ac.uk
- **Sgwrsio ar-lein** ar y dudalen **Fy Modiwlau** yn Blackboard: